



Rhif 2, Mehefin 2026

Llais Unigryw a Chynnes Cymru: Bywyd a Chynhyrchiant Iris Williams OBE

Mae Iris Williams yn un o ffigurau mwyaf nodedig ac ysbrydoledig yn hanes cerddoriaeth fodern Cymru. Gyda'i llais cyfoethog, tywyll a swynol, llwyddodd i bontio'r byd pop, jazz a baledi traddodiadol, gan ennill calonnau cynulleidfaoedd gartref ac ar draws yr Iwerydd. O ddechreuadau heriol i lwyfannau mawreddog Efrog Newydd a Llundain, mae ei stori yn dyst i dalent eithriadol a phenderfyniad di-ildio.


Dechreuadau Newydd ac Ysbrydoliaeth Gynnar

Ganwyd Iris Williams ar 20 Ebrill 1946 yn Rhydyfelin, ger Pontypridd. Roedd ei mam yn Gymraes a'i thad yn filwr (G.I.) croenddu o Unol Daleithiau America a oedd wedi'i orsafu yng Nghymru yn ystod Ail Ryfel y Byd. Ar ôl cyfnod mewn cartref plant amddifad yn Nhonyrefail, cafodd ei maethu a'i magu gan y teulu Llewellyn. Ei mam faeth, Bronwen Llewellyn, a gyflwynodd Iris i fyd cerddoriaeth ac a feithrinodd ei dawn naturiol.

Er iddi ddechrau gweithio mewn ffatri dros dro, roedd ei llais amlwg yn golygu bod ei dyfodol ar y llwyfan. Enillodd ysgoloriaeth i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd, cam ag agorodd y drws i'w gyrfa broffesiynol.

Breuddwydion y Sgrin a Llwyddiannau Mawr

Yn ystod y 1960au hwyr, daeth Iris yn wyneb cyfarwydd ar deledu Cymraeg. Hi oedd y ddynes groenddu gyntaf i ymddangos ar y rhaglen gerddoriaeth eiconig *Disc a Dawn*. Ym 1971, cafodd lwyddiant ysgubol yng Nghymru gyda'i fersiwn pwerus o "Amazing Grace", sef "Pererin Wyf". Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, ym 1974, enillodd gystadleuaeth *Cân i Gymru* gyda'r gân wladgarol ddadleuol ac emosiynol, "I Gael Cymru'n Gymru Rydd".



Llun clawr albwm Williams o 1968 - llun gan Geoff Charles o gasgliad LIGC.

Ond lledodd ei henw da y tu hwnt i ffiniau Cymru ym 1979 pan ryddhaodd "He Was Beautiful" (fersiwn lleisiol o'r dôn "Cavatina" o'r ffilm *The Deer Hunter*). Cyrhaeddodd y gân dros yr ugain uchaf yn siartiau senglau'r DU, gan arwain at gyfres deledu bersonol ar y BBC ac ymddangosiadau

ar raglenni cenedlaethol.

Antur America ac Enwogrwydd Rhyngwladol

Yn ystod y 1980au a'r 1990au, troes Iris ei llygaid tuag at yr Unol Daleithiau. Symudodd i fyw i Efrog Newydd, lle daeth yn seren ym

(... Llais o dudalen 1)

myd cabaret a jazz, gan berfformio mewn lleoliadau o fri fel yr *Oak Room* yng Ngwesty'r Algonquin. Cafodd y fraint o rannu'r llwyfan gydag eiconau fel Bob Hope a Rosemary Clooney, ac fe ganodd dros sawl elusen ar gais yr Arlywydd Gerald Ford.

Er iddi ymgartrefu yn America, ni anghofiodd ei gwreiddiau. Ym 1999, dychwelodd i Gymru i berfformio yn y cyngerdd gala mawreddog i ddathlu agor Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd.

Anrhydeddau a Threftadaeth

Yn ystod ei hoes, cafodd Iris Williams ei chydnabod sawl gwaith am ei chyfraniad cyfoethog i gerddoriaeth a gwaith elusennol. Fe'i penodwyd yn Swyddog o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE) yn 2004, ac fe'i derbyniwyd i Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2006.

Yn dilyn ei marwolaeth ddiweddar yng Ngorffennaf 2025 yn Rancho Mirage, California yn 79 oed, talwyd teyrngedau cynnes iddi gan ffrindiau ac artistiaid. Fe'i hystyrir yn arloeswraig nodedig—nid yn unig fel llais aur o'r Cymoedd, ond fel un o'r artistiaid croenddu cyntaf i fapio llwybr llwyddiannus yng niwylliant Cymru ac yn rhyngwladol. Mae ei llais unigryw a'i hangerdd yn parhau i ysbrydoli cenedlaethau newydd o gantorion.

Creoles o Chalmette, Lwisiana a'i Hanes Gymreig

Ganed Barbara Lefevre Martin yn Orleans Newydd ar Ragfyr 26, 1937, yn ferch i Alfred R. Lefevre a Josephine Lefevre. Treuliodd ei hoes yn ymdrechu i ddysgu ac ehangu ei gorwelion. Ar ôl mynychu Ysgol Uwchradd Chalmette, graddiodd mewn Newyddiaduraeth o Brifysgol LSU, cyn symud ymlaen i wneud

astudiaethau ôl-raddedig helaeth mewn hanes hynafol a chanol oesol ym Mhrifysgol Tulane



Barbara Martin yn ei chartref ar ôl corwynt Katrina. Llundun gan y Goriad.

Yn ogystal â'i diddordeb angerddol mewn hanes, roedd gan Barbara gariad dwfn at ieithoedd. Arbenigodd mewn astudio Groeg hynafol, Llydaweg, ac ieithoedd Celtaidd eraill, ond y Gymraeg a gipiodd ei chalon yn arbennig. Daeth yr iaith a diwylliant Cymru yn rhan ganolog o'i bywyd ac o'i gwaith cymunedol.

Roedd ei chyfraniad i fywyd diwylliannol Cymreig yng Ngogledd America yn nodedig. Roedd yn delynores fedrus iawn, gan berfformio mewn nifer o ddigwyddiadau nider-elw yn Orleans Newydd. Trwy ei cherddoriaeth, daeth ag ysbryd a thonau traddodiadol i gynulleidfaoedd tramor. Roedd yn aelod gweithgar o Gymdeithas Delynu America (American Harp Society) a Chymdeithas Gymreig Gogledd America (Welsh North American Association), gan weithio'n ddiflino i hyrwyddo treftadaeth Cymru. Roedd ei hail wŷr, y diweddar Robin James-Jones, yn tarddu o Gymru, a ddyfnhaodd ei chysylltiad bersonol â'r wlad ymhellach.

Nid oedd ei chariad at Gymru yn gyfyngedig i ddiwylliant yn unig; roedd hefyd yn ymgyrchydd gwleidyddol gweithgar. Roedd Barbara yn eiriolwr cryf dros Plaid Cymru yng Ngogledd America. Trwy'r gwaith hwn,

(... Creoles o dudalen 2)

ceisiodd godi ymwybyddiaeth ryngwladol a chefnogi'r weledigaeth o greu Cymru decach, fwy llewyrchus, a gwyrddach. Estynnodd ei gweledigaeth wleidyddol dros y môr, gan greu'n gryf yn hawl Cymru i hunanbenderfyniad a dyfodol cynaliadwy. Buodd drwy ei gwaith efo Plaid Cymru a Phlaid Cymru Gogledd America y daeth hi'n ffrind mawr i Dafydd ag Elinor Bennett.

Yn ystod y 1990au, sefydlodd Barbara fusnes Gwely a Brecwast llwyddiannus yn ardal Uptown yn Orleans Newydd (gan gynnwys ei chartref ar Pitt St.). Roedd wrth ei bodd yn croesawu gwesteion o bob cwr o'r byd. Fe'i cofiwyd gan un gwestai fel "Aristocrat y Bwrdd Brecwast," oherwydd ei ffordd ddeallus, ffraeth, a doeth o arwain sgysiau dros baned yn y bore.


Bu farw Barbara Lefevre Martin ar Fedi 25, 2017, yn 79 oed, gan adael ar ôl gwaddol cyfoethog o ysgolheictod, cerddoriaeth, ac ymgyrchu dros Gymru. Er iddi dreulio ei bywyd gannoedd o filltiroedd i ffwrdd, curodd ei chalon yn gyson dros yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Hysbysebu a Hybu

Mae'r *Goriad* yn falch o groesawu hybysebion am eich busnes, eich cymdeithas, eich gweithgaredd, neu eich gwasanaethau. Yr unig reol yw bod yn rhaid i'r hysbysebion fod yn Gymraeg! Peidiwch â becsio nad yw eich Cymraeg yn berffaith! Rydym yn fodlon i gyfieithu eich hysbyseb i'r Gymraeg am ddim! Gweler isod prisiau'r hysbysebion yn ôl eu maint:

- Tudalen llawn: UD\$100
- ½ Tudalen: UD\$60
- ¼ Tudalen: UD\$35
- ⅓ Tudalen: UD\$20
- ⅛ Tudalen: UD\$15

Ar hyn o bryd, bydd y *Goriad* yn cael ei ryddhau yn rhad ac am ddim ar grwpiau Facebook a thrwy e-bost yn cyrraedd rhyw 2,000 o bobl bob mis. Am fwy o fanylion, gyrrwch neges at Robert Jones, Golygydd ar robert@curiosityshop.us. Os ydych chi am hybu'r project hwn, gallwch chi fynd i <https://patreon.com/GoriadyGorllewin> a dod yn 'patreon' i'n helpu ni!



Cwis Bach y Goriad:

1. Pa dywysog Cymreig, a elwir yn aml yn "Dywysog olaf Cymru", a gafodd ei ladd yng Nghilmeri yn ymyl Llanfair-ym-Muallt ym mis Rhagfyr 1282?
2. Ym mha dref yng Nghymru y dechreuodd gwrthryfel gweithwyr Terfysgoedd Merthyr yn 1831, lle codwyd y faner goch fel symbol o brotest am y tro cyntaf yn hanes Prydain?
3. Beth yw enw'r llyfr caneuon a cherddi Cymraeg canoloesol enwog sy'n cynnwys y chwedlau cynharaf am Arthur a Myrddin, sy'n cael ei gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac a enwir ar ôl lliw ei glawr?
4. Cyn i Gaerdydd ddod yn brifddinas swyddogol ym mis Rhagfyr 1955, pa dref yng nghanolbarth Cymru oedd cartref i senedd Owain Glyndŵr yn 1404 ac yn cael ei hystyried gan lawer yn "brifddinas hanesyddol"?

(... Cwis o dudalen 3)

5. Pwy yw'r unig un o brif weinidogion y DU i siarad y Gymraeg fel ei iaith gyntaf (mamiath)?

6. Pa ynys oddi ar arfordir Penrhyn Llŷn a elwir yn "Ynys yr Ugain Mil o Seintiau" oherwydd y nifer fawr o fynachod a seintiau sydd wedi gwasanaethu neu gael eu claddu yno?

7. Pa fardd Cymraeg enwog, a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ym Mrwydr Passchendaele, a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol y Beddau Duon yn 1917 ar ôl iddo farw?

8. Beth yw enw'r strwythur peirianeg rhyfeddol dros Afon Dyfrdwy sy'n draphont ddŵr dalaf y byd (Acwedwct), a ddyluniwyd gan Thomas Telford ac sy'n Safle Treftadaeth Byd UNESCO?

Yr Atebion: 1. Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf) 2. Merthyr Tudful 3. Llyfr Du Caerfyrddin 4. Machynlleth 5. David Lloyd George 6. Ynys Enlli 7. Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans) 8. Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Pwy 'naeth hi?

Darllenwch y stori fer isod a cheisio dyfalu pwy ydyw'r troseddwr. Bydd y troseddwr yn cael ei (d)datgelu yn y rhifyn nesaf.

Mae'r glaw yn curo yn ddiidrugaredd yn erbyn ffenestri Mans y Gogledd. Y tu mewn, mae'r llyfrgell yn dawel, ond mae'r awyrgylch yn drwm. Ar y llawr, wrth ymyl y ddesg dderw fawr, mae corff Arthur Vaughan yn gorwedd. Un ergyd i gefn ei ben sydd wedi mynd â'i fywyd.

Ar y ddesg, mae pethau Arthur yn union fel y gadawodd nhw: hanner paned o de sydd yn dal yn gynnes, papur newydd boreol wedi'i agor ar y croesair, a phen ffynnon sydd wedi gollwng inc glas dros y papur. Ond mae un peth ar goll.

Mae sêff y teulu ar agor, ac mae'r fedal aur brin o'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi diflannu.

Mae'r Ditectif Jones yn edrych o amgylch ystafell am ddrwgdybiedig.

Yn gyntaf, mae Marged, tywysydd y tŷ. Mae ei dwylo yn crynu wrth iddi ddal hances bapur. "Roeddwn i yn y gegin drwy'r prynhawn," mae hi'n dweud, ei llais yn felys ond yn siglo. "Roeddwn i'n paratoi'r te prynhawn iddo. Rwy'n gwisgo fy sgidiau meddal bob amser fel nad wyf yn amharu ar ei waith cynhyrfus." Mae Jones yn sylwi ar staen tywyll, gwlyb ar flaen ei ffrog ddu.


Yna, mae Gwilym, y goron-ystafellwr ac edmygwr hanes milwrol. Mae ganddo lygad barcud ac ystum syth. "Roeddwn i yn y tŷ gwydr yn tocio'r planhigion o'r ddwy ar gloch ymlaen," meddai'n benderfynol. "Ni chlywais i ddim byd oherwydd sŵn y glaw ar y gwydr." Wrth iddo siarad, mae'n tynnu ei hen oriawr aur o'i boced i wirio'r amser, gan ddefnyddio ei law chwith.

Yn olaf, mae Owain, nai Arthur, sydd ag enw da am fod yn wastraffwr a gamblwr. Mae'n pwyso yn erbyn y silff lyfrau, yn edrych yn ddifater. "Newydd gyrraedd o Aberystwyth ydw i," meddai gan anadlu'n drwm, gan wisgo cot law drom sy'n dal yn hollol sych. "Fe dorrodd fy nghar i lawr ar y ffordd, ac fe gymerodd oriau i mi ei drwsio yn y baw. Doeddwn i ddim yn rhy hoff o'm ewythr, ond nid oes a wnelo hyn ag mi."

Mae Jones yn cerdded at y ffenestr. Mae'r cloc ar y mantel yn taro pedair o'r gloch. Mae'n troi'n araf ac yn edrych ar y tri. Mae un ohonyn nhw'n dweud celwydd. Mae un ohonyn nhw wedi lladd Arthur Vaughan.

Pwy 'naeth o yn y rhifyn olaf? Mrs. Davies. Gwenwynodd y rhingyll â chegiden.

Bwyd a Chogino



Ar draws

8. Mae angen hwn i wneud brechdan.
9. Hylif gwyn rydych chi'n ei dywallt dros gornfflêcs. |
12. Rydych chi'n bwyta cawl gyda hon.
13. Dysgl hylifol, gynnes sy'n dda ar ddiwrnod oer o aeaf.
15. Diod alcoholig draddodiadol sy'n mynd yn dda gyda sglodion.
16. Sbeis gwyn cyffredin sy'n dod o'r môr.
17. Cynnyrch aderyn sy'n hanfodol ar gyfer cremfogau.
18. Mae hwn yn gwneud pethau'n felys.
19. Diod foreol ddu sy'n rhoi hwb o gaffein i chi.
21. Coginio bara neu deisen yn y ffwrn.
23. Y lle rydych chi'n pobi cacen ynddo.
24. Llysieuyn cenedlaethol Cymru.
26. Cadw bwyd yn oer iawn fel ei fod yn para'n hir.
27. Diod alcoholig wedi'i gwneud o rawnwin.
28. Llysieuyn oren sy'n helpu i weld yn y tywyllwch, yn ôl y sôn.
31. Cynnyrch llaeth llyfn, gweddol drwchus, sy'n aml â blas ffrwythau arno.
32. Teisen felys ar gyfer pen-blwydd.
34. Hylif ffrwythau, fel un oren neu afal.
36. Planhigion fel basil neu bilslyd sy'n ychwanegu blas.

I Lawr

20. Coginio mewn olew poeth mewn padell.
22. Cig carw neu gig eidion, er enghraifft.
24. Lliw mefus ac aeron aeddfed.
25. Y cig gwyn mwyaf poblogaidd i'w rostio.
29. Llysieuyn sy'n gallu gwneud i chi grio wrth ei dorri.
30. Y pryd cyntaf o'r dydd.
33. Teclyn miniog i dorri llysiau neu gig.
35. Rydych chi'n ffrio wy neu gig ynddi.


I Lawr

1. Teclyn i falu pilffon neu halen.
2. Rydych chi'n berwi, stwnsio, neu'n ffrio'r rhain.
3. Cynhwysyn powdr gwyn sy'n sylfaen i fara a chacennau.
4. Diod boeth boblogaidd iawn sy'n cael ei gwneud gyda deilen.
5. Peth melys iawn sy'n dod o wenyn.
6. Y prif bryd yng nghanol y dydd neu gyda'r nos.
7. Creaduriaid y môr sy'n blasus iawn gyda sglodion.
8. Coginio rhywbeth mewn dŵr poeth iawn.
10. Ffrwyth crwn, gwyrdd neu goch, sy'n dda mewn tarten.
11. Peth melys wedi'i bobi, tebyg i gacen.
13. Cynnyrch llaeth sy'n mynd yn dda ar bicau neu dost.
14. Hylif a ddefnyddir i ffrio bwyd, fel un olewydd neu lysiau.
16. Rhan dew, gyfoethog o laeth sy'n dda ar fefus.

Chwilair: Rownd ein Catref ac Ymhellach

Q G H V O E R G E L L K T W A L Y Q L A
 B W R N N S I N C L W Y D X N R N Y E E
 Y E P A S E J D R W S G B C D W I X E Q
 S L L L E N H A T I G R M F K A T H K V
 O Y N K F R K T N B F I J E M L Q U Y G
 F S J J A W N L D Y F S O R V L N O S A
 F D P A N F J G D R E I D T T J A L T R
 A L J G N F U R R H N A E R E V L C A E
 T F V J F T X Z W S E U P A L Z L D F J
 V Y B N E C B U B N S E R C E B W F E J
 Y E L O R W J S Z H T D A A D N E P L H
 G B L A D P S I C D R W C J Y O D D L S
 T I E D O W I A I R H F X R D C D D N R
 N N F C D R M F Q I Y N W J D E I E B M
 X F A U B D N S U A Z E F C R G D T T Y
 P Q T U G D A C J D X N M K E I D N W J
 B I S B P R I N K A P Q Z M L N R Y Y Y
 Z G Y U L O L F A C B A N A E O A C H L
 C N P R A A H U E W D M U Y S X G J H M
 J Z Y Q Q T O R I E P I V O E L B Z A G

Tŷ	Cartref
Cegin	Lolfa
Ystafell wely	Ystafell ymolchi
Drws	Ffenestr
To	Simnai
Gardd	Llawr
Nenfwd	Wal
Grisiau	Atig
Seler	Cyntedd
Dodrefn	Gwely
Cadair	Bwrdd
Soffa	Teledydd
Cwpwrdd	Sinc
Ffwrn	Oergell
Llen cyffredin	Carped
Allwedd	Clo
Clwyd	Garej
Pasej	

Eirlys & Nairobi (testun a chysyniad gan Robert Jones, celf gan Gemini)

Cywydd i'r Awen
Ar ddull Horas. Ilyfr iv, Can. 3.
Quem tu, Melpomene, semel, etc.

O chai fachgen wrth eni,
 Wyd Awen deg, dy wên di,
 Ni bydd gawr na gŵr mawrnerth;
 Prydu a wna; pa raid nerth?
 Ni char ffull, na churo ffest,
 Na chau dwrn, o chaid ornest.
 O bâi 'n agwrdd benigamp,
 Ni chais glod gorfod y gamp.
 Yn ei ddydd e ni ddiddawr
 Gael parch am yru march mawr.
 Ni chyrch drin na byddinoedd,
 Ni char nâd blaengad a bloedd;
 Ni chaiff elw o ryfelwaith,
 Na chlod wych hynod ychwaith;
 Na choron hardd, ddigardd ddyn,
 Draw i gil o droi gelyn.
 Mawl a gaiff am oleu gerdd,
 A gwiw seingan gyssongerdd—
 Barddwawd fel y gwnai beirddion
 Defnyddfawr o wlad fawr Fon.

Cymru a rif ei phrif-feirdd;
 Rhifid ym Mon burion beirdd;
 Cyfran a gaf o'u cofrestr,
 A'm cyfrif i'w rhif a'u rhestr;
 Mawrair a gaf ym Meirion
 Yn awr, a gair mawr gwŷr Mon.
 Llaesodd ar aball eisoes
 Cenfigen ei phen a ffoes.

O f' Awen deg, fwyned wyt!
 Diodid dawn Duw ydwyt!
 Tydi roit â diwair wên
 Lais eos i lysowen.
 Dedwydd o'th blegid ydwyf,
 Godidog ac enwog wyf.
 Cair yn son am Oronwy,
 Llonfardd Mon, llawn fyrdd a mwy;
 Caf arwydd lle cyweiriwyf,
 Dengys llu â bys lle bwyf.

Diolch yt, Awen dawel;
 Dedwydd wyf, deued a ddêl;
 Heb Awen baich yw bywyd,
 A'i rhodd yw rhyngu bodd byd.

Digwyddiadau ar y Gweill:

Cwrs Cymraeg gan Gymdeithas Madog,
 19-26 GOR (www.madog.org)

Wythnos Treftadaeth Gymreig, 19-26
 GOR
 (www.welshheritageweek.org)

Gŵyl Gymreig Gogledd America, 2-6
 MED
 (www.festivalofwales.org)

